

O'R CYNRADD
I'R UWCHRADD:

Lois Wyn
Williams



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSGU CYMRU
EDUCATION WALES
Cymraeg yn ymddisgynnwedd - our national mission

A hithau wedi ei geni a'i magu yn sir Fôn mewn teulu o athrawon dyw hi fawr o syndod i Lois fentro i fyd addysgu. Yn dilyn ei chyfnod yn Ysgol David Hughes croesodd Lois y bont i Brifysgol Bangor lle gwnaeth gwrs addysg gyda'r bwriad o gael gyrfa fel athrawes gynradd.

Ond wrth i'w chyfnod ymarfer dysgu ddod i ben fe welodd y cwrs pontio yn cael ei hysbysebu ynghyd â chyfleoedd i weithio yn Ysgol Tryfan, Bangor a dyma roi galwad i'r Pennaeth am sgwrs.

"Drwy gydol fy nghyfnod yn yr ysgol roeddwn wrth fy modd gyda Gwyddoniaeth a Mathemateg ac er i fi wneud fy ymarfer dysgu yn y cynradd ro'n i'n teimlo y gallwn gael mwy o effaith ar bobl ifanc pe bawn yn canolbwyntio ar fy hoff bynciau."

Yn ogystal â'r mwynhad o allu canolbwyntio ar ei hoff feysydd mae Lois hefyd yn mwynhau gweithio gyda'r amrediad oed yn yr uwchradd.

"Mewn diwrnod arferol byddaf yn gweld chwe set gwahanol o ddisgyblion o wahanol oedran ac mae'r amrywiaeth yna yn rhoi gymaint o hwbl i fi - mae pob un fel chwa o awyr iach."

Mae Lois hefyd yn gwerthfawrogi'r cymorth sydd ar gael wrth bontio.

"Mae'r ysgol wedi bod yn hynod gefnogol ac rwyf yn cyfarfod yn wythnosol gyda fy mentor. Cafodd yr amserlen ei addasu ar fy nghyfer hefyd - dysgu tri dosbarth yn unig i gychwyn a hynny wedi cynyddu yn raddol dros amser."

"Mae swyddogion y cynllun ei hun hefyd wedi bod yn cynnig sesiynau ar-lein i drin a thrafod unrhyw faterion allai fod yn rhoi pryder neu i ateb cwestiynau - felly mae gen i rywun i droi atynt os oes angen ar unrhyw adeg."

Beth fyddai ei chyngor felly i rywun sydd yn ystyried dilyn yr un trywydd?

"Mae angen i chi ystyried yn gyntaf pa mor gyffyrddus ydych chi gyda plant hŷn - maent yn medru bod yn fwy heriol o ran ymddygiad ond i fi mae'r wobwr yn y pendraw yn werth chweil."

"Rwy'n teimlo hefyd fod mwy o gyfleoedd yn yr uwchradd i ddatblygu eich diddordebau - rwyf ynghlwm â chlwb peirianeg ar ôl ysgol er enghraifft, ac mae na ddim o bobl o'ch cwmpas i gynnig cyngor a chefnogaeth."

"Rwyf i wrth fy modd yn yr uwchradd ac wrth fy modd yn cael addysgu drwy'r Gymraeg - heb os y peth gorau wnes i!"

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru